

## Waters Report – Overview Document

Argymhelliad	Manylion	Datganiad ASCL Cymru
<b>Yn cael ei ddatblygu'n barod gan Lywodraeth Cymru</b>		
1 2	Sefydlu Corff Adolygu Tâl Annibynnol Cymru (CATAC) Ysgrifennu Dogfen Tâl a Thelerau Athrawon Ysgol Cymreig (DTTAC)	Ni all yr 'WSTPCD' "egluo rôl a chymhwysedd o'r 'Llyfr Byrgyndi', fel yr awgryma'r adroddiad, oherwydd mai set o gytundebau penodol rhwng cyflogwyr ag undebau yw'r llyfr Byrgyndi, ac nid dogfen i'w thrafod gan y corf adolygu tâl.
4a, 4b	Dylai pob athro ddisgwyl a chyda hawl i gael saith diwrnod y flwyddyn yn cymryd rhan mewn addysgu proffesiynol. Dylid trefnu pedwar o'r dyddiau hyn gan eu hysgol er cyfarfod blaenoriaethau'r ysgol. Rheolir tri diwrnod y flwyddyn gan yr athro/awes unigol.	Mae'r cynnig hwn yng nghanol ymgynghoriad ffurfiol. Cwestiynwn sut y bydd yn cael ei gyllido, a pha effaith y bydd yn ei gael ar addysgu ar draws yr ysgol.
<b>Derbyniwyd gan ASCL Cymru</b>		
10	Athrawon Newydd wedi'u cyllido'n rhannol er cofrestru i gorff proffesiynol	Angen eglurhâd o ba le y bydd y cyllid yn dod.
33	Cadw trefniadaeth taliad Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu	
<b>Gwrthodwyd gan Lywodraeth Cymru</b>		
12	Dylid rhoi ystyriaeth i adael i athrawon gyda phrofiad llwyddiannus o 35 mlynedd i fod yn addas i dderbyn un diwrnod llawn yr wythnos i ffwrdd o'r gwaith heb dâl a heb gosb i drefniadau pensiwn.	Nid yw'n fater a ddatganolwyd

## Waters Report – Overview Document

<b>Cynigion na ystyriwn eu bod yn rhan o dâl a thelerau</b>		
3	Sefydlu comisiwn er 'ail ddychmygu ysgolion yng Nghymru'	Mae'r comisiwn a argymhellir yn syniad diddorol ond nid oes ganddo ddim i wneud gyda thâl a thelerau. Yn yr un modd, y 'gwiriad gyrfa' sydd hefyd gydag oblygiadau yn nhermau o sut y cyllidir a'i reoli.
13	Yr holl athrawon gyda 10+ mlynedd o brofiad i'w hannog i gymryd rhan mewn 'gwiriad gyrfa' er mwyn cloriannu cyfleon dysgu proffesiynol.	
<b>Cynigion sydd angen gwaith pellach arnynt</b>		
6	Dylid datblygu prosesau mentora effeithiol ar gyfer penaethiaid sydd newydd gael eu penodi i ysgol, gan gynnwys penaethiaid sydd wedi cwblhau'u prifathrawiaeth gyntaf.	Cefnogwn yr angen am fentora effeithiol ar bennaethiaid sydd newydd gael eu penodi ond ni chredwn y gellir gwneud hynny drwy ymestyn gwaith cynghorwyr her, fel yr awgryma'r adroddiad.
7	Dylai athrawon yng nghanau cynnar eu gyrfa, gario llwyth addysgu llai yn ogystal â'r amser Cynllunio, Asesu a Pharatoi presennol o 10% ym mlwyddyn 1 a 5% ym mlwyddyn 2	Dylai gael ei gyllido'n llawn er sicrhau nad yw ysgolion yn cael eu gadael gyda gwagleoedd mewn cyflenwi addysgu.
11	Dylid ystyried cynllun o roi hawl am absenoldeb gyda chaniatad o dri mis ar gyfer pob deng mlynedd o wasanaeth a gwblheir drwy 'gyfraniad misol o'r cyflog'.	Angen mwy o fanylder
21	Dylai egwyddor o 'ddim anfantais' yn y fframwaith tâl newydd fodoli er sicrhau y diogelir lefelau cyflog presennol	Cytunwn gyda'r egwyddor hon ond ymddengys y caiff ei gwrthdweud gan gynigion eraill yn yr adroddiad.
25,26	Dylai'r ystod Tâl i athrawon ag arweinwyr, i ddechrau, fod yr un fath a'r rhai yn Lloegr, ac nid oes angen eu newid yn nhermau recriwtio oherwydd nid ydynt fawr iawn allan ohonni gyda phroffesiynau graddedig eraill yng Nghymru	Mae gennym breder am y syniad 'i ddechrau' yn nhermau cymharu gyda Lloegr, a'r gymhariaeth gyda phroffesiynau graddedig eraill yng Nghymru. Pryderwn y gall hyn rwyddhau'r ffordd at gyflog llai na Lloegr yn y tymor hir oherwydd bod cyflogau yng Nghymru'n llai ar gyfartaledd. Byddai hyn yn niweddiol iawn i recriwtio a chadw.

## Waters Report – Overview Document

28	Dylai athrawon sy'n newid ysgolion yng Nghymru neu sydd, wedi torriad gyrfa, yn parhau i weithio yng Nghymrugael eu talu'n gyfartal â'r pwynt cyflog diweddaraf pan yn gweithio	Angen mwy o fanylder
<b>Gwerthoedd heb eu costio, na all weithio o bosibl ac felly, heb eu profi</b>		
8, 9	Rhaglen Meistr mewn Addysg wedi ei dalu amdano o 2021 i unrhyw athro sydd yn y drydedd flwyddyn ymlaen: dylid annog sefydliadau addysg uwch i gynnig cyfraniad tuag at raglan Meistr mewn Addysg genedlaethol	Derbyniwn yr egwyddor o wneud rhaglen Meistr ar gael i bob athro/awes, ond yr ydym yn bryderus ynghylch beth fuasai hyn yn ei olygu yn nhermau amser allan o'r ystafell ddosbarth, ac ymddengys y cynllun cyllido yn freuddwyd ar y gorau.
14, 15, 16, 17	Gallai athrawon fod yn abl i ymgeisio i ddod yn arbenigwyr pedagogeg, gan dreulio 50% o'u hamser yn ymchwilio a gweithio gydag athrawon mewn ysgolion eraill. Buasai eu hysgolion eu hunain yn derbyn ANG ychwanegol neu athro/awes newydd ddechrau fel aelod o staff llawn amser.	Yn hynod ddud, ysgolion yn colli'u athrawon mwyaf profiadol am 50% o'u hamser, cynigion yn brin ar fanylion. Cyfrifoldebau cytundebol ar gyfer staff o'r fath yn broblemus.
23	Dylid gweithio mwy ar ddatblygu cynnig i'r rhai sy'n hyfforddi ar gyfer addysgu a fuasai'n rhoi sicrwydd cyllidol yn ystod eu profiad hyfforddiant.	Prin ar fanylion.
<b>Yn annerbyniol i ASCL</b>		
5, 29	Dylai cynnydd mewn cyflog, i athrawon a phenaethiaid, ddiwynnu ar broses Adolygiad Datblygiad Proffesiynol sy'n cynnwys ystyriaeth o'r cyfraniad at 'Ein Cenhadaeth Genedlaethol'. Dylai'r broses adolygu ar gyfer athrawon fod yn berthynol i dystiolaeth yr athro/awes o ymgymryd â hyfforddiant proffesiynol	Ni does eglurder am sut y byddid yn profi hyn yn ymarferol. Ond yn ddiweddar iawn y bu i ysgolion dderbyn cyllideb gyfyngedig ar gyfer addysgu proffesiynol ac eto, byddai'n ddigwyledig i asesu addysgu proffesiynol athro/awes. Mae cynigion addysgu proffesiynol ynn nghofal y consortia.
18	Penodir penaethiaid i ysgolion ar y ddealltwriaeth fod eu deiliadaeth i'r genedl yn hytrach nag i'r ysgol unigol. Bydd eu rôlau arweinyddiaeth nesaf neu olynol yn cael eu negydu drwy brosesau cyflwynedig drwy Awdurdodau Lleol a Chyfundrefnau Gwella Ysgolion Rhanbarthol.	Newid sylweddol gan symud awdurdod tros benodiadau i ffwrdd o gyrff llywodraethol at asiantaethau eraill. A fuasai gan benaethiaid reolaeth dros lle y buasent yn gweithio a beth fuasai effaith hynny ar eu bywyd teuluol?
19	Dylid gofyn i'r WSTRB Newydd gynnal dadansoddiad sylweddol o amgylchiadau neilltuol darpariaeth ar gyfer Anghenion Addysgu Ychwanegol yng nghyd-destun 'Fframwaith Gyrfa, Telerau a Thâl yng	Mae'n honiad gan y panel fod graddfeydd tâl staff AAY angen eu haddasu er sicrhau y telir athrawon yn addas, gan gyflwyno adnoddau ariannol i ymdrin â unrhyw ychwanegiad ni fuasai

## Waters Report – Overview Document

	Nghymru' gyda'r bwriad o symud yn raddol at safle o gydraddoldeb oddimewn i'r holl ysgolion.	gennym unrhyw wrthwynebiad i hynny. Fodd bynnag, ni fuasem yn ystyried trefniadaeth a fuasai'n symud penderfyniadau ystafell ddosbarth am dâl ar lefel leol i fod yn addas.
20	Dylai athrawon cyflenwol dreulio saith niwrnod yn ymwneud ag addysgu proffesiynol ym mhob blwyddyn ysgol, waeth faint yw eu Gwaith cyflenwi. Dylai eu hasiantaeth drefnu a rheoli pedwar o'r dyddiau hyn gyda thri'n cael eu rheoli gan yr unigolyn.	Pwy fuasai'n cyllido hyn? Yr asiantaeth neu'r unigolyn? Sut y bydd hyn yn effeithio'n gyllidol y rhai a ddewisodd wneud gwaith cyflenwol, gan gynnwys merched sydd ar doriad gyrfa yn dilyn mamolaeth?
22, 30, 32	Ar gyfer athrawon unigol a phenaethiaid, dylai bod graddfeydd cyflog addysgu ac arweinyddiaeth cenedlaethol, safonedig a chytunedig heb unrhyw amrywiad lleol na rhanbarthol.  Dylai graddfa gyflog genedlaethol naw pwynt newydd ar gyfer holl athrawon gynnwys with ychwanegiad blynyddol wedi'u seilio ar yr athro/awes yn arddangos eu twf proffesiynol rhesymol.  Dylid dileu'r gwahaniaeth rhwng y Prif Ystod Tâl a'r un Uwch gan ddod a'r cysyniad o drothwy i ben.	Byddai hyn yn dod a hyblygrwydd cyrff llywodraethol tros gyflogau penaethiaid i ben, gang au cyflogau lle bu hyblygrwydd cadarnhaol wedi'i gymhwysio tan mae codiadau costau byw yn dal i fyny gyda'r pwynt cyflog y maent yn ei dderbyn. Yn amlwg, mae hyn yn gwrthddefwedd yr egwyddor 'dim anfantais'.  Beth yw'r diffiniad o 'dwf proffesiynol rhesymol' yn y raddfa naw pwynt a argymhellir?  Ni allwn ganfod unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r ddadl y cymhwysir taliadau trothwy ar hap.
24	Dylai bod addasiad ar y pwynt dechreuol ar y brif raddfa cyflog i'r rhai sy'n dechrau addysgu gyda phrofiad gwaith perthnasol blaenorol mewn gweithfeydd eraill.	Mae hyn yn weithredol yn barod yn y DCTA – argymhelliad gormodol.
27	Dylid gosod prosesau mewn lle i fonitro'n barhaus gyflogau athrawon yng Nghymru mewn perthynas â phroffesiynau graddedig eraill fel rhan o drefniadau setliadau cyflog i'r dyfodol.	A allai hyn olygu gostyngiad mewn tâl os yw cyflogau athrawon yn codi'n uwch na phroffesiynau graddedig eraill?
31	I'r athrawon hynny sydd gyda chymhwyster lefel Meistr addas, dylai bod ychwanegiad o un pwynt a degfed pwynt cyflog.	Pwy sydd yn talu am hyn ag a gostiwyd y syniad?
34	Dylai'r rôl o 'weithredwr arweiniol' ddod i ben gyda ffordd Newydd yn cael ei sefydlu sy'n hybu arweinyddiaeth o greadigrwydd, cydweithrediad o addysgu proffesiynol ac ymarfer pedagogeg.	Tra mai hyn yw allbwn synhwyrol o greu rôl "arbenigwr/aig" mae'n enghraifft arall o bwerau'n cael eu cymryd i ffwrdd oddiwrt y cyd-destun lleol. Ni fydd gan lywodraethwyr ac arweinwyr ysgol wedyn yr hyblygrwydd i ddefnyddio'r rôl hon.

## Waters Report – Overview Document

35, 36, 37	<p>Dylid rhoi ystyriaeth fanwl i argaeledd sefydlu bwrdd annibynnol i ddarganfod y lefel cyflog dechreuol i bob ysgol unigol sy'n awyddus i benodi pennaeth mewn gwagle.</p> <p>Dylid talu Dirprwy Benaethiaid a phenaethiaid cynorthwyol ar raddfa sy'n hafal i ganraneb lleiafswm ac uchafswm o'r cyflog a delir i'r pennaeth.</p> <p>Dylai fod graddfa dâl arweinyddiaeth genedlaethol a chytunedig sy'n gosod pwyntiau cyflog ar gyfer Penaethiaid Uwchraddol a Phenaethiaid Ysgolion a'u dirprwyon lle bo hynny'n addas ac y dylai pob trefniant newydd fod yn amodol ar drefniadaeth setliad cyflog gan banel annibynnol.</p>	<p>Byddai rôl cyrff llywodraethol yn cael ei leihau'n sylweddol wrt benodi penaethiaid; ac ni allwn weld sut y buasai côst o sefydlu bwrdd annibynnol yn cael ei gyfiawnhau pan and oes tystiolaeth o gwbl o angen un; ac nid oes angen yr argymhellion am gyflogau dirprwyon a phenaethiaid cynorthwyol gan fod y rheoliadau cyfredol yn y DCTA yn rhoi arweiniad clir.</p> <p>Tra yr ydym yn gweld gwerth mewn graddfeydd cyflog cenedlaethol i benaethiaid uwchraddol, penaethiaid ysgolion a'u dirprwyon, yr ydym yn erbyn sefydlu bwrdd annibynnol.</p>
------------	---	--